Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

Gwasanaeth Tân ac Achub / Fire and Rescue Service

# GWEITHREDWR YSTAFELL REOLI'R GWASANAETH TÂN

**I weithio cyfartaledd o 42 awr yr wythnos ar shifftiau**
**Yr Ystafell Rheoli, Canolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd, Llanelwy**

**Cyflog: Yn dechrau ar £26,852 (hyfforddi) am y 8 wythnos o gyfnod hyfforddi cychwynnol, cyn codi i £27,970 (cymwys). Pan fyddwch yn gwbl gynwys (o leiaf ddwy flynedd), bydd yn codi i £35,791 y flwyddyn (pro-rata os yn gweithio'n rhan amser).**

Rydym yn dymuno recriwtio Gweithredwr yr Ystafell Reoli Gwasanaeth Tân i ymuno â'n tîm dros dro am 6 mis gyda chyfleoedd llawn neu ran amser ar gael. Staff yr Ystafell Reoli Tân ydi'r pwynt cyswllt cyntaf mewn argyfwng, a gyda'u sgiliau trin galwadau arbenigol maent yn chwarae rôl hanfodol yn delio gyda digwyddiadau'n llwyddiannus.

Mae'r Ystafell Reoli ar agor drwy'r dydd a'r nos, ac mae'n gweithredu ar sail system shifftiau sy'n darparu gofal 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Byddwch yn rhan o rota shifftiau sydd wedi'i blaen gynllunio 12 mis o flaen llaw ar gyfer gweithwyr amser llawn a rhan amser, ac felly'n eich galluogi i gynllunio'ch bywyd personol yn ochr yn ochr â'ch proffesiwn.

Gan aros yn ddigynnwrf dan bwysau bydd Gweithredwr yr Ystafell Reoli yn derbyn, dethol a chofnodi gwybodaeth y galwyr mewn perthynas â cheisiadau am gymorth brys a difrys. Yna, bydd yr adnoddau mwyaf addas yn cael eu hanfon allan at y digwyddiad yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle. Mae'n rhaid i chi allu meddwl yn gyflym, bod â sgiliau cyfathrebu da a gallu cyfleu cyfarwyddiadau ysgrifenedig a llafar yn gywir yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r broses ddethol yn cynnwys nifer o asesiadau (gan gynnwys sgiliau teipio, sgiliau iaith a rhifedd) ac mae'n rhaid eu cwblhau'n llwyddiannus cyn y cyfweliad. Bydd asesiadau technegol a chyfweliadau yn dechrau yn ystod yr wythnos yn cychwyn 14 a 19 o Fai, 2025.

Sylwch fod y swydd hon ar amod proses archwilio cefndir NPPV Lefel 2 Heddlu Gogledd Cymru a geirdaon boddhaol (Rhagwelir y bydd y dyddiad cychwyn ym mis Hydref 2025 ar ôl cwblhau'r broses fetio i ymgeiswyr llwyddiannus). I gael mwy o fanylion am y rôl a'r cyflog, cyfeiriwch at y pecyn gwybodaeth.

I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn cais drwy e-bost i: recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais ydi hanner dydd, 23/04/25**

Byddwn yn glynu wrth y dyddiad cau yn llym ac ni fydd eithriadau.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau | PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG — EMPLOYER RECOGNITION SCHEME CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR — GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre
Mae help ar gael, ddydd a nos

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

safecall
Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.